

Un Llais Cymru



One Voice Wales

Prosiect Argyfwng Costau Byw

GRANTIAU A CHYFLEOEDD ARIANNU POSIBL

CGGC

Cynllun Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru

Mae'r gronfa hon ar agor i geisiadau erbyn hyn. Un o amcanion y grant yw archwilio partneriaethau o fewn a rhwng y trydydd sector, y sector preifat a chyhoeddus er mwyn adeiladu a dysgu gan gynlluniau newydd neu fanylach. Beth am gydweithio â'ch partneriaid cymunedol i gyrchu'r cyllid hwn.

[Mwy o wybodaeth yma](#)

Grantiau Datblygu Prosiect y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol

Gall Cynghorau Cymuned a Thref gyrchu cyllid hyd at £20,000 i gefnogi unrhyw waith sy'n hanfodol i ddatblygu prosiect adnewyddu adeilad hanesyddol. Bwriad y gronfa yw helpu sefydliad i ysgwyddo rhai o gostau datblygu a chydlynu prosiect. Llenwch [ffurflen mynegiant o ddiddordeb](#) fel y gall swyddog cymorth gysylltu â chi i drafod eich prosiect

Prosiectau Ynni Lleol

Mae llawer o gwmnïau ynni yn cynnig cronfeydd cymunedol i helpu'r ardaloedd lle maen nhw wedi sefydlu.

[Cronfa Gymunedol Pen y
Cymoedd](#)

[Gronfa Gymunedol Fferm
Wynt Coedwig Gorllewin
Brechfa](#)

[Budd Cymunedol Brenig
Wind Ltd](#)

[Cronfa Gymunedol Gwynt
y Môr](#)

[Cronfa Gwynt Cymunedol
Bryn Blaen](#)

Plant mewn Angen

Rhaglen Awyr Fawr

Bydd BBC Plant mewn Angen yn ariannu prosiectau sy'n:

Gweithio gyda phlant a phobl ifanc 18 oed ac iau

Gweithio yng nghalon eu cymunedau, yn enwedig ar adeg o argyfwng

Cyfleoedd Rhanbarthol

Rhaglen Grant Cymunedol Maes Glo (Cymru)

Ydych chi wedi'ch lleoli mewn cymuned maes glo cymwys?

Pwrpas y Gronfa yw cefnogi a gwella safon bywyd y bobl sy'n byw mewn hen gymunedau glofaol drwy eu helpu i gael gwaith, cynyddu sgiliau a gwella eu hiechyd a'u lles..



Prosiect Argyfwng Costau Byw

GRANTIAU A CHYFLEOEDD ARIANNU POSIBL

Grant Tlodi, Arloesi a Chefnogi Cymunedau Plant

Mae'r grant ar gael i helpu sefydliadau cyhoeddus a rhai'r trydydd sector i gyflawni'r canlynol:

- Gwella gallu sefydliadau i ffurfio trefniadau gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â thlodi plant, yn gysylltiedig ag un neu fwy o 5 amcan Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024.
- Cefnogi sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i wella cyfathrebu effeithiol, cydweithio a throsglwyddo gwybodaeth wrth ymateb i dlodi plant ar y lefel ranbarthol, lleol neu gymunedol.

Rhaglen y Loteri Celfyddydau, Iechyd a Lles..

Ariannu prosiectau celfyddydol sy'n cysylltu pobl â natur, gan ei gwneud yn haws i bartneriaethau creadigol dyfu rhwng sefydliadau celfyddydol, iechyd a natur..

Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG 2025-26

Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG 2025-26 Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol i ganfod pa gyllid sydd ar gael a sut i wneud cais am gyllid trosiannol 2025/2026. Gyda phrosiectau yn gorfod cael eu cyflawni erbyn diwedd Rhagfyr, nid oes llawer o amser i gyflwyno ceisiadau

Cymunedau Arfordirol

sea-changers

Grantiau i wneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chadwraeth forol.

Cronfa Ffownteni Arfordirol –

Mae grantiau o hyd at £2,500 ar gael, i bob ymgeisydd, tuag at gost ffownten.

Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol. Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

Sefydliad Cymunedol
yng Nghymru

Cyllido Cymru